## Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021

## Cwestiynau Cyffredin

### Parthau Perygl Nitradau (PPNau)

C. Beth sy'n digwydd i PPNau yng Nghymru?

A. Mae rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2013. O ganlyniad, ni fydd y dynodiadau PPN a ddefnyddir ar hyn o bryd yn cael eu harfer mwyach.

C. Pam nad yw'r cyfnodau pontio'n berthnasol i ffermydd sydd mewn PPN sydd eisoes yn bod?

A. Bwriedir y cyfnodau pontio ar gyfer ffermydd nad oedd ganddynt PPNau yn y gorffennol, er mwyn rhoi amser iddynt baratoi ar gyfer y rheoliadau. Er mwyn parhau i ddiogelu’r amgylchedd mewn PPNau sydd eisoes yn bod, nid oes modd estyn y cyfnod pontio ar gyfer ardaloedd PPN. Bydd llawer o'r prosesau a'r gofynion yn parhau, felly ni ddisgwylir fawr o newid i’r ffordd y bydd y fferm yn cael ei rheoli. Cewch hefyd barhau i ddefnyddio'r gweithlyfrau a’r cyfrifiadau a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer PPNau.

C. Sut byddaf yn gwybod a oedd tir mewn ardal PPN o'r blaen?

A. Gallwch weld y dynodiadau PPN presennol ar borth MapDataCymru Llywodraeth Cymru. Fel arall, gallwch ofyn am fapiau.

### Y Gofynion Trawsgydymffurfio

C. A fydd unrhyw newidiadau i drawsgydymffurfio o ganlyniad i'r rheoliadau?

A. Bydd y rheoliadau'n rhan o'r gofynion trawsgydymffurfio a’r system bresennol o safonau dilysadwy fydd sail y drefn drawsgydymffurfio. Bydd y taflenni ffeithiau ar drawsgydymffurfio yn cael eu diweddaru i adlewyrchu'r ffaith bod y rheoliad wedi cael ei gyflwyno a’r cyfnodau pontio.

C. A gaf i ddefnyddio tystiolaeth o gynlluniau eraill, e.e. Glastir, i ddangos fy mod wedi Cynllunio i Reoli Maethynnau ac ar gyfer y mapiau risg?

A. Cewch, os yw gofynion y cynllun presennol yn bodloni'r gofynion sylfaenol ar gyfer cadw cofnodion o dan y rheoliadau newydd, cewch ddefnyddio'r un cynlluniau rheoli maethynnau yn dystiolaeth.

### Tir Dros Dro (Llai na 364 diwrnod y flwyddyn)

C. A gaf i gynnwys unrhyw dir yr wyf yn ei bori dros dro wrth imi fynd ati i gyfrifo ar gyfer fy naliad?

A. Cewch, rhaid cofnodi newidiadau i faint eich daliad o fewn 1 mis a bydd eich terfynau'n cael eu hailgyfrifo ar gyfer y cyfnod y byddwch yn pori'r tir dros dro.

C. A gaf i daenu tail/wasgaru dom ar unrhyw dir yr wyf yn ei ddefnyddio/yn ei bori dros dro?

A. Dim ond os chi sy’n gyfrifol am reoli’r tir. Cewch daenu tail/wasgaru dom arnh y tir hwnnw os byddwch wedi cael caniatâd, ond byddai angen cofnodi eich bod wedi cludo tail allan o'ch daliad a rhaid i reolwr y tir gofnodi ei fod wedi cael ei gludo i mewn i’r tir.

C. Mae gennyf ddefaid 'tac' ar fy nhir dros y gaeaf ar ran ceidwad arall. Oes angen imi eu cynnwys nhw wrth gyfrifo’r ffigurau ar gyfer fy naliad?

A. Oes, rhaid ichi gofnodi unrhyw anifeiliaid sydd ar y daliad am yr holl amser y byddant ar y daliad, hyd yn oed os nad chi yw'r ceidwad cyfrifol.

**Tir Comin**

C. Rwy'n pori anifeiliaid ar dir comin. A gaf i gynnwys y tir hwnnw wrth gyfrifo maint y daliad?

A. Cewch gynnwys tir comin lle mae gennych hawliau i bori da byw wrth ichi gyfrif cyfanswm arwynebedd eich daliad. Dim ond arwynebedd y tir comin y mae gennych yr hawliau i bori arno y cewch ei gynnwys.

C. Dim ond ar gyfer 1 rhywogaeth y mae gennyf hawliau tir comin. Sut rydw i'n rhoi cyfrif am hynny wrth gyfrif y ffigurau ar gyfer fy naliad?

A. Mae’r terfyn nitrogen yn cael ei gyfrif ar gyfer y daliad cyfan, gan gynnwys y tir comin, pa rywogaethau bynnag sydd arno.

**Meddalwedd Fferm ar gyfer Cynllunio i Reoli Maethynnau**

C. Rwy'n defnyddio meddalwedd fferm sy'n bodoli eisoes i lunio cynllun rheoli maethynnau. A gaf i barhau i ddefnyddio'r feddalwedd hon?

A. Cewch, ylech sicrhau bod y feddalwedd yn bodloni safonau gofynnol y rheoliadau. Os nad yw’n eu bodloni efallai y bydd angen i chi gadw cofnodion ychwanegol, Mae angen i’r cofnodion gael eu cadw am o leiaf 5 mlynedd ac mae angen sicrhau eu bod ar gael i bobl eu gweld os gofynnir amdanynt.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu gweithlyfr digidol sy’n caniatáu ichi gynllunio i reoli maethynnau ar lefel sylfaenol mewn ffordd sy’n cydymffurfio â’r gofynion o ran cadw cofnodion.

C. A gaf i ddefnyddio allbynnau'r feddalwedd rheoli ffermydd er mwyn cadw cofnodion?

A. Cewch, ond wedi dweud hynny, rhaid ichi sicrhau bod y feddalwedd yn gallu bodloni'r gofynion sylfaenol ar gyfer cadw cofnodion a bod cofnodion yn cael eu storio am o leiaf 5 mlynedd a'u bod ar gael i bobl eu gweld os gofynnir amdanynt.

**Cyfrifo Faint o Le sydd ar gael i Storio Slyri**

C. Ni wn faint o anifeiliaid fydd ar y daliad yn ystod y cyfnod storio. Sut gallaf i gyfrifo faint o le y bydd ei angen?

A. Mae’r lle sydd ar gael ar gyfer storio yn cael ei gyfrif ar sail y nifer 'disgwyliedig' o anifeiliaid ar y daliad yn ystod y cyfnod storio. Mae hyn yn golygu bod gofyn ichi fynd

ati ar 1 Hydref, neu cyn hynny, i roi cyfrif o nifer yr anifeiliaid yr ydych yn disgwyl, o dan amodau arferol, y bydd gennych ar eich daliad drwy gydol y cyfnod storio. Efallai y byddwch am ystyried defnyddio gwybodaeth o flynyddoedd blaenorol i bennu'r nifer disgwyliedig. Os bydd anifeiliaid yn cael eu hychwanegu neu eu tynnu o'r daliad, rhaid ichi ddiweddaru'r wybodaeth o fewn 1 mis i'r newidiadau, a rhaid ichi gyfrifo o'r newydd ar gyfer y cyfnod storio. Efallai yr hoffech gyfrifo'r nifer 'uchaf' o anifeiliaid ar gyfer y lle sydd ar gael yn eich systemau storio, a rheoli yn unol â hynny.

Os byddwch yn cynyddu nifer yr anifeiliaid ar y daliad, bydd angen ichi sicrhau eich bod yn bodloni'r gofynion yn y rheoliadau o ran faint o le storio sydd ar gael.

C. Dim ond cyfran o fy na byw sy'n cynhyrchu slyri. Sut rydw i'n rhoi cyfrif am hynny?

A. Dim ond y slyri yr ydych yn disgwyl iddo gael ei gynhyrchu y mae gofyn ichi ei gofnodi. Os dim ond cyfran o'ch da byw y sydd danh sylw ar unrhyw un adeg, gallwch ddefnyddio'r ffigurau disgwyliedig ar gyfer yr anifeiliaid hynny.

C. Hoffwn ehangu faint o le storio sydd gennyf gan ddefnyddio dulliau storio dros dro fel Bagiau AG. A yw'r rheoliadau'n caniatáu hynny?

A. Nac ydynt, rhaid i'r holl ffyrdd o storio slyri fodloni'r gofynion adeiladu sylfaenol sydd i'w gweld yn atodlen 5 o Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.

C. Pa ddata am lawiad y gallaf ei ddefnyddio i gyfrifo faint o le storio sydd ar gael?

A. Mae data am lawiad cyfartalog ar gael drwy borth MapDataCymru Llywodraeth Cymru, Lle. Mae'r data'n seiliedig ar gyfartaleddau misol hanesyddol y swyddfa dywydd ar gyfer 1980 - 2010. Darperir y data ar grid 1km er mwyn adlewyrchu daearyddiaeth eang Cymru ac er mwyn darparu data lleol cywir.

Cewch ddefnyddio'ch data eich hun am lawiad, os ydynt yn cael eu casglu ar y fferm, i ddarparu ffigurau glawiad mwy cywir. Rhaid ichi drafod yr offer monitro gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i weld a yw'n addas cyn ichi ddefnyddio'r data i gyfrifo'r ffigurau.

C. A gaf i ddefnyddio'r dewin slyri i gyfrifo fy anghenion storio?

A. Cewch ddefnyddio offeryn y Dewin Slyri, a ddatblygwyd gan AHDB (y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth). Hefyd, mae gweithlyfr digidol Llywodraeth Cymru yn dangos ichi sut i gyfrifo'ch anghenion storio. Yn ogystal, gallwch ddefnyddio'ch gwaith cyfrifo eich hun, ar yr amod eich bod yn gallu dangos sut yr aethoch ati i gyfrif.

**Tir Trawsffiniol**

C. Rwy'n ffermwr o Gymru ond mae gennyf dir yn Lloegr. Sut mae'r rheoliadau'n berthnasol imi?

A. Mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 yn berthnasol i'r holl dir sydd gennych yng Nghymru, felly, bydd y rheoliadau'n

berthnasol i bob cae sydd yng Nghymru. Rhaid cyfrifo’r holl ffigurau a chadw cofnodion ar gyfer y caeau hynny. Rhaid ichi hefyd gyfrifo’r canlynol ar gyfer y fferm yn ei chyfanrwydd:

- Lleiafswm y lle sydd gennych i storio tail da byw;
- Cyfanswm y terfyn nitrogen ar y fferm ar gyfer tail da byw (170 kg/ha).

Mae rhagor o wybodaeth am y gofynion ar gyfer tir yn Lloegr, gan gynnwys Parthau Perygl Nitradau (PPNau) i’w gweld ar wefan Llywodraeth y DU https://www.gov.uk/government/collections/nitrate-vulnerable-zones.

C. Rwy'n ffermwr o Loegr ond mae gennyf dir yng Nghymru. Sut mae'r rheoliadau'n berthnasol imi?

A. Mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 yn berthnasol i’r holl dir sydd gennych yng Nghymru felly bydd y rheoliadau'n berthnasol i bob cae sydd yng Nghymru. Rhaid cyfrifo’r holl ffigurau a chadw cofnodion ar gyfer y caeau hynny. Ni fydd gofyn ichi gyfrifo ar gyfer y fferm gyfan.

**Treulio Anaerobig**

C. Mae gennyf gyfarpar treulio anaerobig ar y fferm/rwy’n allforio’n uniongyrchol i safle treulio anaerobig. A yw dal yn ofynnol imi fodloni’r meini prawf o ran y cyfnod storio?

A.  Mae’n allweddol fod gennych gapasiti i storio unrhyw weddillion treulio anaerobig sy’n cynnwys tail da byw a gynhyrchwyd yn ystod y cyfnod storio.

Os oes cyfarpar treulio anaerobig ar y safle neu os oes gennych drefniant ffurfiol i allforio slyri i safle treulio anaerobig, nid yw’n ofynnol ichi fodloni’r gofynion o ran cyfnod storio. Ond wedi dweud hynny, rhaid bod gennych ddigon o le i storio am o leiaf 1 wythnos rhag ofn bydd yr offer treulio anaerobig yn methu ac er mwyn caniatáu amser ichi wneud trefniadau ychwanegol. Os yw slyri'n cael ei allforio, rhaid ichi ddangos bod gennych gontract i'w allforio i safle treulio anaerobig drwy gydol y cyfnod storio.

**Daliadau Anamaethyddol**

C. Rwy'n cadw nifer bach o anifeiliaid at ddibenion anamaethyddol. A oes angen imi gydymffurfio â'r rheoliadau?

A. Oes. Mae eithriad ar gael rhag y gofynion llawn ar gadw cofnodion os yw'r daliad, o fewn blwyddyn galendr, yn cynhyrchu llai na 100kg/ha Nitrogen o dail organig (naill ai wedi'i ddodi neu ei daenu'n uniongyrchol), os yw wedi defnyddio llai na 90kg/ha o Nitrogen wedi'i weithgynhyrchu, ac os nad oes unrhyw dail na slyri yn cael ei fewnforio i'r tir. Dylech gyfeirio at atodiad 2 i’r canllawiau.

**Cymorth Ariannol**

C. A fydd unrhyw gymorth ariannol ar gyfer gwaith i uwchraddio ffermydd?

A. Nid yw’r rhaglenni ariannu ar gyfer y dyfodol wedi cael eu cadarnhau eto, ond efallai y byddwch yn gymwys i gael cymorth dan gynlluniau sy'n bodoli eisoes. Ewch i’r adran ffermio ar wefan Llywodraeth Cymru i gael rhestrau cyfredol o’r cynlluniau ariannu presennol ac arfaethedig. https://llyw.cymru/ffermio-a-chefn-gwlad

**Cadw cofnodion**

C. Beth mae'r eithriad rhag y gofynion cadw cofnodion yn ei olygu?

A. Byddwch yn cael eich eithrio rhag y gofyniad i gofnodi faint o wrteithiau nitrogen organig neu nitrogen wedi'i weithgynhyrchu sydd wedi cael eu taenu os ydych yn bodloni’r meini prawf isod.

- Bod 80% o arwynebedd amaethyddol y daliad wedi’i hau â phorfa
- Nad yw cyfanswm y tail organig a roddir ar y daliad, boed yn uniongyrchol gan anifail neu drwy daenu, yn fwy na 100kg/ha
- Nad yw cyfanswm y nitrogen mewn gwrtaith wedi’i weithgynhyrchu a ddefnyddir ar y daliad yn fwy na 90kg/ha;
- Nad ydych yn dod ag unrhyw dail organig i'r daliad

Bydd gofynion Cynllunio Rheoli Maethynnau yn tynnu sylw at y ffaith y bydd yr eithriad hwn yn berthnasol.

Ni fydd angen ichi wneud cais i Lywodraeth Cymru nac i CNC i gael eich eithrio ond mae’n rhaid i chi gadw cofnodion o’r gofynion uchod fel tystiolaeth eich bod yn bodloni’r gofyniad eithrio. Os bydd eich sefyllfa'n newid ac na fyddwch bellach yn gymwys i gael eich eithrio, dylech ddechrau cofnodi'r gweithgareddau taenu.

C. A gaf i storio fy nghofnodion yn ddigidol?

A. Cewch. Dylech gadw fersiwn newydd a rhoi’r dyddiad arni er mwyn darparu hanes digidol neu ddangos eich gwaith cyfrifio, ac ni ddylech ddisodli gwaith cyfrifo blaenorol.

C. Rwy'n symud ffermydd. Beth ddylwn i ei wneud â fy nghofnodion?

A. Os ydych yn symud ffermydd neu'n dewis rhoi’r gorau i ffermio'r tir eich hun, dylech drosglwyddo copïau o'r cofnodion i denant nesaf y fferm er mwyn sicrhau dilyniant. Dylech hefyd gadw copi am o leiaf 5 mlynedd os oes angen.

C. Oes rhaid imi ddefnyddio gweithlyfr Llywodraeth Cymru?

A. Nac oes, nid oes yn rhaid ichi ddefnyddio gweithlyfr Llywodraeth Cymru ond mae'n rhaid ichi sicrhau eich bod yn gallu bodloni'r gofynion sylfaenol ar gadw cofnodion, sicrhau bod cofnodion yn cael eu storio am o leiaf 5 mlynedd, a'u bod ar gael i bobl eu gweld os gofynnir amdanynt.

C. A oes angen cofnodion ar wahân arnaf ar gyfer pob lleoliad CPH sy’n rhan o’r daliad?

A. Nac oes, gallwch reoli'ch daliad cyfan fel un daliad, faint bynnag o rifau CPH sydd gennych. Dylai'r nifer o anifeiliaid a ddefnyddir ar gyfer y gwaith cyfrifo gynnwys eich holl anifeiliaid.

**Taenu neu allforio slyri/tail pan fyddwch dan gyfyngiadau TB**

C. Rwyf dan gyfyngiadau TB. A fyddaf yn cael allforio slyri/tail?

A. Wrth symud slyri/tail, dylech, ym mhob achos, drafod hynny ymlaen llaw gyda'ch milfeddyg achos APHA cyn unrhyw symudiadau wedi'u cynllunio. Fel arfer, ni fyddwch yn cael allforio i ddaliadau eraill lle mae gwartheg, na'i wasgaru ar dir a ddefnyddir ar gyfer pori. Rhaid ichi gofnodi unrhyw symudiadau slyri/tail ar eich daliad neu oddi arno. Os ydych yn pryderu am unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â chydymffurfio neu reoli maethynnau, dylech gysylltu â CNC am gyngor. https://naturalresources.wales/about-us/contact-us

**Taenu Bio-solidau**

C. Rwy'n taenu bio-solidau ar hyn o bryd. A gaf i barhau i wneud hynny?

A. Cewch barhau i daenu bio-solidau ond rhaid ichi ystyried y terfynau a nodir yn y canllawiau. Dylech drafod y gofynion hyn gyda'ch cyflenwr bio-solidau er mwyn nodi faint o fio-solidau fyddai orau ar eich cyfer a dylech gynnwys yr wybodaeth hon o fewn eich cofnodion mewnforio.

**Strwythurau eithriedig**

C. Pa strwythurau sy'n cael eu heithrio rhag y safonau adeiladu sydd yn y rheoliadau?

A. Mae'r Rheoliadau'n berthnasol i bob strwythur a ddefnyddiwyd, a adeiladwyd, a ailadeiladwyd i raddau helaeth, neu a ehangwyd yn sylweddol ar ôl Medi 1991. Mae strwythurau a oedd yn cael eu defnyddio neu a gafodd eu hadeiladu cyn mis Mawrth 1991, neu lle'r ymrwymwyd i gontract adeiladu ar eu cyfer, cyn mis Mawrth 1991 ac a gwblhawyd cyn mis Medi 1991 yn "strwythurau eithriedig". Rhaid ichi sicrhau bod digon o le storio ar gael ar gyfer y cyfnod storio.

C. A oes unrhyw gyfyngiadau ar strwythurau eithriedig?

A. Caiff CNC ei gwneud yn ofynnol ichi wella strwythurau "eithriedig" er mwyn eu codi i'r safonau yn y Rheoliadau drwy gyflwyno Hysbysiad dan reoliad 30 yn manylu ar y gwelliannau sy'n ofynnol ac ar faint o amser sydd gennych i gydymffurfio.

C. A yw strwythur yn parhau i fod wedi'i eithrio os yw'n cael ei addasu?

A. Pan fydd strwythur a fu gynt yn "eithriedig" (neu unrhyw strwythur arall) wedi cael, neu yn cael ei ehangu neu ei ailadeiladu'n sylweddol, bydd y Rheoliadau'n berthnasol i'r strwythur hwnnw, a byddant yn berthnasol i'r strwythur **cyfan** ac nid dim ond y rhan sydd newydd ei hestyn neu ei hailadeiladu. Er enghraifft, byddai gwaith mawr i addasu storfa "eithriedig" yn golygu y byddai'r storfa a'i draeniau a'i thanciau cysylltiedig yn dod dan gwmpas y Rheoliadau, ond ni fyddai atgyweirio neu fân newidiadau i bwll derbyn neu sianelau yn golygu, o reidrwydd, na fyddai tanc

storio *slyri* yn cael ei eithrio mwyach. Bydd "wedi'i ailadeiladu'n sylweddol" yn aml yn golygu bod angen newidiadau strwythurol sylweddol. Os ydych yn ystyried newidiadau i strwythur eich storfa, dylech gysylltu â CNC am gyngor.

C. A yw'r eithriad yn cwmpasu'r gofyniad o ran faint o le fydd ar gael yn ystod y cyfnod storio?

A. Nac ydy. Bydd y lle sydd ar gael yn y strwythur eithriedig yn cyfrif tuag at gyfanswm y lle storio sydd ar gael ichi. Rhaid ichi sicrhau bod digon o le storio ar gael ar gyfer y cyfnod storio a bodloni gofynion eraill y rheoliadau. Efallai y bydd angen gwell trefniadau ar gyfer gwahanu dŵr glân a dŵr budur er mwyn lleihau eich anghenion storio. Fel arall, efallai y bydd angen storfa ychwanegol neu ehangu strwythur sy'n bodoli eisoes.

**Tomenni dros dro mewn caeau**

C. Os nad yw tail fy nofednod yn cynnwys deunydd gorwedd pan y mae'n ofynnol i mi ei orchuddio gyda deunydd anhydraidd?

A. Gall tomenni dros dro mewn caeau gael eu defnyddio ar gyfer tail sych y mae modd ei stacio mewn tomen a all sefyll yn annibynnol (hy ddim symud) ac nad yw'n draenio hylif o'r deunydd. Fodd bynnag, mae tail dofednod heb ddeunydd gorwedd yn dueddol o ddechrau symud os bydd unrhyw lawiad neu ddŵr yn dod i gysylltiad ag ef gan olygu ei fod yn addas ar gyfer tomenni dros dro mewn caeau. Mae gochuddio gyda deunydd anhydraidd yn ffordd o geisio osgoi digwyddiadau o'r fath.